



Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid: Wylfa@planninginspectorate.gov.uk
e-bost:

At Horizon Nuclear Power
(Er gwybodaeth i bob Parti â Buddiant)

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 25 Chwefror 2019

Annwyl Syr/Fadam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) Adran 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 9 a Rheol 17

Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd

Newidiadau i'r cais gwreiddiol a chais am wybodaeth ychwanegol

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod i chi am y penderfyniad gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio ynglŷn â chais yr Ymgeisydd i dderbyn nifer o newidiadau i'r Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). Ysgrifennwn atoch hefyd i ofyn i chi am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r cais sydd wedi'i newid.

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi derbyn dwy set o geisiadau am newidiadau i'r Cais; roedd y cais cyntaf yn cynnwys dau gais unigol am newid ac roedd yr ail yn cynnwys tri chais unigol am newid.

Cyhoeddwyd y set gyntaf o geisiadau am newidiadau fel Cyflwyniad Ychwanegol ynghyd â llythyr eglurhaol. Cyhoeddwyd yr ail set o Geisiadau am Newidiadau yn rhan o ddogfennau Terfyn Amser 4, ynghyd â llythyr eglurhaol (REP4-001).

Mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod wedi dilyn y weithdrefn a argymhellir yn Nodyn Cyngor 16 yr Arolygiaeth Gynllunio: Sut i ofyn am gael gwneud newid a allai fod yn berthnasol (AN16), er bod yr Ymgeisydd yn honni nad yw'r newidiadau arfaethedig yn berthnasol mewn gwirionedd.

Perthnasedd y newidiadau arfaethedig

Ym marn yr Ymgeisydd, nid yw'r newidiadau arfaethedig ym mhob un o'r Ceisiadau am Newidiadau yn berthnasol. Fodd bynnag, yr Awdurdod Archwilio sydd i benderfynu, yn y pen draw, p'un a yw newid arfaethedig yn berthnasol.

Fel y dywedir yn AN16:

“Nid oes diffiniad cyfreithiol o ‘berthnasol’, ond y profion i’w defnyddio yw p’un ai yw’r newid yn sylweddol neu p’un ai nad yw’r datblygiad sy’n cael ei gynnig nawr, yn ei hanfod, yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol. Mae’r cyntaf yn gyfystyr â gwneud newid perthnasol ac – ar yr amod bod digon o amser ar ôl yn y cam Archwilio – gellir ei gynnwys fel rhan o broses Deddf Cynllunio 2008. Mae’r olaf yn gyfystyr â phrosiect gwahanol y byddai angen gwneud cais newydd ar ei gyfer. Mae p’un ai yw newid arfaethedig yn perthyn i’r naill neu’r llall o’r categorïau hyn yn fater o farn gynllunio a all fod yn seiliedig ar feini prawf, gan gynnwys, er enghraifft, a fyddai’r newid yn achosi effaith/effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol.”

Mae’r Awdurdod Archwilio wedi asesu ceisiadau’r Ymgeisydd yn unol â pharagraffau 109 i 115 Canllaw’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ‘Deddf Cynllunio 2008: archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu’ ac AN16, ac mae wedi dod i’r casgliadau canlynol:

Cais am Newid yn ymwneud â’r Strategaeth Ffrwydro

i) Newid arfaethedig yr Ymgeisydd

Mae’r Ymgeisydd yn gofyn am gael newid yr oriau ffrwydro arfaethedig o 10:00-16:00 o’r gloch i 09:00-19:00 o’r gloch yn ystod yr wythnos, ac o 10:00-13:00 o’r gloch i 09:00-13:00 o’r gloch ar ddydd Sadwrn. (AS-020)

Nid yw’r Ymgeisydd yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd na gwahanol o ganlyniad i’r newid arfaethedig. Yn ogystal, mae’r Ymgeisydd wedi cadarnhau na fyddai’r newid y gofynnwyd amdano yn cynyddu amllder ffrwydro yn ystod yr oriau estynedig a geisir.

Byddai’r oriau ffrwydro y gofynnwyd amdanynt yn ystod yr wythnos yn ymestyn awr yn hwyrach na’r cyfnod a awgrymir gan BS6472-2, ond byddai’r oriau yn ystod yr wythnos yn dechrau awr yn hwyrach hefyd. Byddai defnyddio lefel dirgryniad ffrwydro is o 4.5 ppv mms-1 yn ystod awr olaf y cyfnod y gofynnwyd amdano yn ystod yr wythnos yn lleihau’r effeithiau cysylltiedig a brofir gan breswylwyr lleol. Ni fyddai amllder ffrwydradau’n newid a, phe byddai’r newid yn cael ei ganiatáu, ni fyddai ffrwydrad yn ystod yr awr olaf y gofynnwyd amdani yn ystod yr wythnos yn ddigwyddiad annisgwyl. Fodd bynnag, byddai gweithio ar y lefel dirgryniad ffrwydro is, fel y cadarnhawyd gan yr Ymgeisydd ym mharagraff 1.2.7 REP3-044, yn lleihau effaith bosibl gwaith adeiladu yn sylweddol ar ôl 18:00 o’r gloch. Yn ogystal, gellid disgwyl yn rhesymol i fwy o weithgarwch ffrwydro ddigwydd yn ystod camau cynharach y gwaith adeiladu.

Mae’r ffactorau sydd wedi arwain at y newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hesbonio.

ii) Safbwyntiau ar berthnasedd

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru (‘CNC’) yn credu [REP2-325 Atodiad D paragraff 2.8] y byddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd na gwahanol yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i’r newid arfaethedig i’r strategaeth ffrwydro, ac mae Cyngor Sir Ynys Môn (‘IACC’) yn datgan ei fod yn fodlon bod y newid y gofynnwyd amdano yn amherthnasol ‘mewn cyd-destun’. Mae’r holl gynrychiolaethau eraill ynglŷn â’r newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hystyried.

iii) Barn yr Awdurdod Archwilio ar berthnasedd a derbyn newidiadau
Nid yw'r Awdurdod Archwilio wedi gweld unrhyw dystiolaeth y byddai'r newid y gofynnwyd amdano'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol, gan gynnwys effeithiau cronol. Nid yw'r Awdurdod Archwilio ychwaith yn credu bod hyn (a'r newidiadau eraill a gynigiwyd) yn golygu nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr, yn ei hanfod, yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol.

Yn unol â hynny, mae'r Awdurdod Archwilio yn cytuno y byddai'r newid i strategaeth ffrwydro'r cais yn newid amherthnasol i'r cais ac y dylai gael ei dderbyn i'w ystyried yn yr archwiliad yn rhan o'r cais.

iv) Materion i'w hystyried yn rhan o'r archwiliad
Cododd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad bryderon ynglŷn ag effeithiau sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn, ac y gallai'r newid y gofynnwyd amdano ychwanegu at yr effeithiau. Bydd hyn, ynghyd â'r rheolaethau angenrheidiol a ddylai gael eu darparu gan y Cod Ymarfer Adeiladu a phryderon Cyngor Sir Ynys Môn (IACC) y dylai Safon Brydeinig BS6472-2:2008 gael ei mabwysiadu'n llawn, yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio yn rhan o'i archwiliad o'r cais (fel y'i newidiwyd).

v) Ymgynghoriad cyhoeddus
Nodwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus ar y newid arfaethedig hwn wedi cael ei gynnal gan yr Ymgeisydd rhwng 14/08/2018 a 28/09/2018, a'i fod wedi cynnwys ymgynghoreion penodol a phreswylwyr lleol trwy Gronfa Ddata Cymdogion Agos Horizon.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn fodlon nad oes angen ymgynghoriad pellach, er mwyn tegwch, i ddiogelu buddiannau a/neu hysbysu'r rhai y gallai'r newid effeithio arnynt.

Cais am newid yn ymwneud â symudiadau llongau

i) Newid arfaethedig yr Ymgeisydd
Mae'r Ymgeisydd yn gofyn am newid i'r symudiadau llongau arfaethedig. Byddai'n cynyddu'r terfyn dyddiol uchaf o bedwar symudiad y dydd (dwy long) i 16 symudiad y dydd (wyth llong) o fewn cyfanswm y symudiadau llongau a aseswyd ac a ddisgrifiwyd yn y datganiad amgylcheddol (AS-021).

Nid yw'r Ymgeisydd yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd na gwahanol o ganlyniad i'r newid arfaethedig. Yn ogystal, mae'r Ymgeisydd wedi cadarnhau [REP3-044] bod y cais am newid yn ymwneud yn unig â chynyddu terfyn dyddiol uchaf llongau sy'n defnyddio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) fel y gellid ymdopi â digwyddiadau annisgwyl, fel tywydd gwael; ni fyddai'r newid y gofynnwyd amdano'n cynyddu cyfanswm nifer y llongau sy'n ofynnol i adeiladu'r datblygiad arfaethedig; ac, mae'r cais wedi ystyried ystod eang o fathau o longau, symudiadau a dulliau o'u rheoli.

Mae'r ffactorau sydd wedi arwain at y newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hesbonio.

ii) Safbwyntiau ar berthnasedd

Ar ôl ystyried effeithiau posibl, gan gynnwys y rhai hynny ar ansawdd aer, mamaliaid môr ac adar môr, nid yw CNC yn credu [REP2-325 Atodiad D paragraff 3.6] y byddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd na gwahanol yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i'r newid arfaethedig i symudiadau llongau.

Mae'r holl gynrychiolaethau eraill ynglŷn â'r newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hystyried.

iii) Barn yr Awdurdod Archwilio ar berthnasedd a derbyn newidiadau
Nid yw'r Awdurdod Archwilio wedi gweld unrhyw dystiolaeth y byddai'r newid y gofynnwyd amdano'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol, gan gynnwys effeithiau cronol. Nid yw'r Awdurdod Archwilio ychwaith yn credu bod hyn (a'r newidiadau eraill a gynigiwyd) yn golygu nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr, yn ei hanfod, yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol.

Yn unol â hynny, mae'r Awdurdod Archwilio yn cytuno y byddai'r newid i symudiadau llongau arfaethedig y cais yn newid amherthnasol i'r cais, ac mae'n dod i'r casgliad y dylai gael ei dderbyn i'w ystyried yn yr archwiliad yn rhan o'r cais.

iv) Materion i'w hystyried yn rhan o'r archwiliad
Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi codi pryderon ynglŷn â natur y symudiadau llongau a'u heffeithiau ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn, ac y gallai'r newid y gofynnwyd amdano darfu ymhellach ar y nythfa môr-wenoliaid. Bydd y materion hyn, ynghyd â'r rheolaethau angenrheidiol i'w darparu gan y Cod Ymarfer Adeiladu, yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio yn rhan o'i archwiliad o'r cais (fel y'i newidiwyd).

v) Ymgynghoriad cyhoeddus
Nodwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus ar y newid arfaethedig hwn wedi cael ei gynnal gan yr Ymgeisydd rhwng 14/08/2018 a 28/09/2018, a'i fod wedi cynnwys nifer o bartion yr oedd o'r farn y byddai ganddynt fuddiant yn y newid arfaethedig (gan gynnwys unigolion rhagnodedig o dan adran 42(a)-(d) Deddf Cynllunio 2008, ymgynghoreion statudol ac Unigolion â Buddiant mewn Tir); bod dau ddigwyddiad galw heibio wedi cael eu cynnal ar ei fws ymgynghori yng Nghemaes a Thregele, a bod ei gylchlythyr 'Newyddion i Gymdogion' wedi cael ei anfon at bob aelwyd yn ardaloedd Cemaes a Thregele.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn fodlon nad oes angen ymgynghoriad pellach, er mwyn tegwch, i ddiogelu buddiannau a/neu hysbysu'r rhai y gallai'r newid effeithio arnynt.

Cais am Newid yn ymwneud â Phatrymau Sifft Gweithwyr

i) Newid arfaethedig yr Ymgeisydd
Mae'r Ymgeisydd eisiau gwneud newidiadau i batrymau sifft gweithwyr, gweler y tabl isod. (REP4-011)

| DCO Presennol | | Newid Arfaethedig | | |
|-------------------------|---|---------------------------|----------------------------|---|
| | | | 2020 | 2023 |
| Dydd (10 awr) | 07:00-17:00 07:30-17:30 08:00-18:00 | Dydd (10.5 awr) | 07:00-17:30 07:30-18:00 | 07:00-17:30 07:30-18:00 08:00-18:30 |

| | | | | |
|--------------------------|---|------------|---------------------------|--|
| Nos (10.5 awr) | 16:30-03:00 17:00-03:30 17:30-04:00 | Nos | 19:30-06:00 (10.5 awr) | 19:30-05:30 20:00-06:00 (10 awr) |
|--------------------------|---|------------|---------------------------|--|

Nid yw'r Ymgeisydd yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd na gwahanol o ganlyniad i'r newid arfaethedig.

Mae'r ffactorau sydd wedi arwain at y newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hesbonio.

ii) Safbwyntiau ar berthnasedd

O'r ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad yr Ymgeisydd, mae CNC a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFR) yn cytuno na fyddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd na gwahanol yn codi o ganlyniad i'r newid arfaethedig.

Mae IACC yn dadlau bod angen i'r cais hwn am newid gael ei ystyried ochr yn ochr â'r ddau gais arall am newidiadau i symudiadau cerbydau nwyddau trwm (HGV) ac oriau gwaith y safle a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 4 hefyd. Mae IACC o'r farn y byddai'r newidiadau, o'u hystyried fel pecyn, yn gyfystyr â newid perthnasol i'r cais.

iii) Barn yr Awdurdod Archwilio ar berthnasedd a derbyn newidiadau

Er bod yr Awdurdod Archwilio yn nodi pryderon IACC ynglŷn â'r effeithiau cronol posibl, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, nid yw'r Awdurdod Archwilio o'r farn y byddai'r newid y gofynnwyd amdano'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol. Nid yw'r Awdurdod Archwilio ychwaith yn credu bod hyn (a'r newidiadau eraill a gynigiwyd) yn golygu nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr, yn ei hanfod, yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol. Yn unol â hynny, ystyrir y byddai'r cais am newid i batrymau sifft gweithwyr yn newid amherthnasol ac y dylai gael ei dderbyn i'w ystyried yn yr archwiliad yn rhan o'r cais.

iv) Materion i'w hystyried yn rhan o'r archwiliad

Mae'n amlwg bod nifer o bryderon ynglŷn â'r newid arfaethedig. Mynegodd Llywodraeth Cymru (LIC) bryder y gallai'r newid arfaethedig arwain at y posibilrwydd o orgyffyrddiad rhwng gweithwyr sy'n gadael a chyrraedd y safle, ac amheuodd p'un a allai Cyffordd 4 yr A55 ymdopi â hyn. Yn ogystal, holodd p'un a oedd y newid arfaethedig wedi ystyried traffig a gynhyrchir gan Fferi 05:45 Caergybi.

Er gwaethaf y cwestiwn ynghylch perthnasedd, mae IACC yn credu y byddai angen i'r cais hwn gael ei asesu ymhellach ac y byddai angen gwybodaeth am effeithiau posibl y newid. Mae wedi gofyn am dystiolaeth ychwanegol ynglŷn ag ymddygiad a phatrymau teithio gweithwyr, gan gyfeirio at weithlu Hinkley Point C. Mynegodd bryder hefyd ynglŷn â hyd y sifftiau, a ph'un a allai hyn olygu y byddai mwy o weithwyr yn ceisio llety yn agosach i'r safle ac y byddai'r symudiadau traffig wedi'u cywasgu i ddwy sifft yn hytrach na'u lledaenu ar draws tair sifft. Croesawodd y ffaith y byddai'r newid yn osgoi amserau teithio ysgolion.

Ailadroddodd Cyngor Sir Gwynedd (GCC) bryderon blaenorol ynglŷn â phatrymau sifft a dywedodd er nad oedd y newid arfaethedig yn codi unrhyw bryderon newydd, amlygodd y posibilrwydd o 'ymestyn cyfnodau brig', gan gyfeirio at gydnerthedd y rhwydwaith i ymdopi â damweiniau a digwyddiadau annisgwyl.

Roedd un preswylwr lleol yn pryderu am yr effaith ar lefelau traffig ar adegau pan fyddai pobl yn cysgu.

Bydd yr holl faterion hyn yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio yn rhan o'i archwiliad o'r cais (fel y'i newidiwyd).

v) Ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhaliodd yr Ymgeisydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig rhwng 8/11/2018 a 6/12/2018. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau at ymgynghoreion penodol; cymhorthfa agored yng Nghemaes; anfon cylchlythyr Horizon 'diweddariad ar yr ymgynghoriad' at bob cartref yng Nghemaes, Tregele ac ar hyd rhan ddeheuol yr A5025 (3,018 o gyfeiriadau) a gosod hysbysiadau safle mewn 22 lleoliad.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn fodlon nad oes angen ymgynghoriad pellach, er mwyn tegwch, i ddiogelu buddiannau a/neu hysbysu'r rhai y gallai'r newid effeithio arnynt.

Cais am Newid yn ymwneud â Symudiadau HGV

i) Newid arfaethedig yr Ymgeisydd

Mae'r Ymgeisydd eisiau gwneud newidiadau i symudiadau HGV, gweler y tabl isod. (REP4-013)

| DCO Presennol | | Newid Arfaethedig | |
|------------------------------------|-------------|------------------------------------|-------------|
| Llun-Gwener | 07:00-19:00 | Llun-Gwener | 07:00-23:00 |
| Sadwrn | dd/b | Sadwrn | 08:00-13:00 |
| Sul a Gwyliau | dd/b | Sul a Gwyliau | dd/b |
| Cyfanswm nifer yr oriau yr wythnos | 60 | Cyfanswm nifer yr oriau yr wythnos | 85 |

Byddai'r un nifer o HGVs, ond byddai'r symudiadau wedi'u lledaenu dros fwy o oriau/dyddiau.

Fodd bynnag, rhwng 19:00 a 23:00 (Llun-Gwener), byddai uchafswm o 20 o symudiadau i bob cyfeiriad (h.y. 40 o symudiadau dros gyfnod o bedair awr).

Ddydd Sadwrn, byddai uchafswm o 50 o symudiadau i bob cyfeiriad (h.y. 100 o symudiadau dros gyfnod o bum awr).

Nid yw'r Ymgeisydd yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd na gwahanol o ganlyniad i'r newid arfaethedig.

Mae'r ffactorau sydd wedi arwain at y newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hesbonio.

ii) Safbwyntiau ar berthnasedd

Ni wnaeth CNC, GCC na NWFR sylwadau ar berthnasedd y newid arfaethedig. Yn hytrach, daethant i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd na gwahanol yn debygol o godi o ganlyniad i'r newid arfaethedig.

Mae IACC yn dadlau na ddylai'r cais hwn am newid gael ei ystyried ar wahân a bod angen iddo gael ei ystyried ochr yn ochr â'r ddau gais arall am newidiadau i batrymau sifft ac oriau gweithio'r safle a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 4 hefyd. Mae IACC o'r farn y byddai'r newidiadau, o'u hystyried fel pecyn, yn gyfystyr â newid perthnasol i'r cais ac y byddai angen asesiad llawn o'r effeithiau, gan gynnwys darparu gwybodaeth amgylcheddol arall.

Fodd bynnag, mae IACC yn derbyn, o ran Nodyn Cyngor 16, na fyddai'r newid arfaethedig ar ei ben ei hun yn newid hanfod y cais yn sylweddol.

iii) Barn yr Awdurdod Archwilio ar berthnasedd a derbyn newidiadau
Er bod yr Awdurdod Archwilio yn nodi pryderon IACC ynglŷn â'r effeithiau cronol posibl, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, nid yw'r Awdurdod Archwilio o'r farn y byddai'r newid y gofynnwyd amdano'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol. Nid yw'r Awdurdod Archwilio ychwaith yn credu bod hyn (a'r newidiadau eraill a gynigiwyd) yn golygu nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr, yn ei hanfod, yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol. Yn unol â hynny, ystyrir y byddai'r cais am newid i symudiadau HGV yn newid amherthnasol ac y dylai gael ei dderbyn i'w ystyried yn yr archwiliad.

iv) Materion i'w hystyried yn rhan o'r archwiliad
Mae'n amlwg bod nifer o bryderon ynglŷn â'r newid arfaethedig. Mae IACC wedi gofyn i'r newid gael ei sicrhau trwy naill ai'r DCO drafft (dDCO) neu God Ymarfer Adeiladu (CoCP); manylion y mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer y 18 eiddo ychwanegol y byddai'r newid arfaethedig yn effeithio arnynt, ac na ddylai'r newid i'r oriau ddod i rym oni bai/tan fod y gwelliannau priffyrdd i'r A5025 nad ydynt yn dilyn llinell bresennol y ffordd yn cael eu cwblhau ac ar agor i draffig. Cododd LIC bryder ynglŷn â gwrthdaro posibl â phobl sy'n cyrraedd ar fferi Caergybi. Cododd naw preswyliwr lleol nifer o bryderon y gellir eu crynhoi fel a ganlyn: lefelau sŵn yn y nos; ansawdd aer; gwrthdaro traffig ar ddydd Sadwrn ac yn ystod yr haf; dirywiad arwyneb y ffordd; traffig sy'n mynd yn rhy gyflym; gweithredu'r newidiadau i oriau cyn y gwaith priffyrdd nad yw'n dilyn llinell bresennol y ffordd.

Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio yn rhan o'i archwiliad o'r cais (fel y'i newidiwyd).

v) Ymgynghoriad cyhoeddus
Cynhaliodd yr Ymgeisydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig rhwng 8/11/2018 a 6/12/2018. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau at ymgynghoreion penodol; cymhorthfa agored yng Nghemaes; anfon cylchlythyr Horizon 'diweddariad ar yr ymgynghoriad' at bob cartref yng Nghemaes, Tregale ac ar hyd rhan ddeheuol yr A5025 (3,018 o gyfeiriadau) a gosod hysbysiadau safle mewn 22 lleoliad.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn fodlon nad oes angen ymgynghoriad pellach, er mwyn tegwch, i ddiogelu buddiannau a/neu hysbysu'r rhai y gallai'r newid effeithio arnynt.

Cais am Newid i Oriau Gweithio

i) Newid arfaethedig yr Ymgeisydd
Mae'r Ymgeisydd eisiau gwneud newidiadau i oriau gweithio, gweler y tabl isod.
(REP4-012)

| Gweithgarwch | DCO Presennol | Newid Arfaethedig |
|---|--|---|
| Stancio morol | Yr holl waith stancio morol 07:00-18:00 | Stancio ergydiol (<i>Percussion piling</i>) 07:00-19:00 Stancio dalennog (<i>Sheet piling</i>) 24h |
| Adeiladu'r MOLF | Yr holl offer perthnasol 07:00-18:00, heblaw am offer morol = 24 awr | Yr holl offer, 24 awr |
| Paratoi am ffrwydro, gan gynnwys drilio a phacio cerrig ar gyfer ffrwydro | Yr holl offer 07:00-19:00 | 24/7 ar gyfer gweithrediadau adeiladu sy'n gysylltiedig â chloddio dwfn |
| Drilio ac angori cerrig wrth wneud gwaith cloddio, gan gynnwys defnyddio concrit chwistrellu (<i>shotcrete</i>) i sefydlogi wynebau agored | Yr holl offer 07:00-19:00 | 24/7 ar gyfer gweithrediadau adeiladu sy'n gysylltiedig â chloddio dwfn |
| Symud/adleoli cerrig a gloddiwyd o'r ardal forol (parth 10) ac o uned 1 (parth 4) ac unedau 2 (parth 8). Bydd y deunydd hwn yn symud i ardaloedd o amgylch y gwaith cloddio dwfn ac ar gyfer adeiladu'r MOLF | Yr holl offer 07:00-19:00 | 07:00-19:00 ar gyfer 100% o'r offer, 19:00-23:00 a 23:00-07:00 ar gyfer 50% o'r offer Bydd deunydd ym mharth 10 yn cael ei osod cyn belled â'r morglawdd yn unig (24h) |
| Gweithrediadau ategol sy'n gysylltiedig ag ystod o weithgareddau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gwaith cynnar a'r Prif Waith Adeiladu (e.e. cyfarpar/cynnal a chadw ffyrdd/cyflenwi tanwydd/symudiadau cyfarpar a deunyddiau, glanhau) | Yr holl offer 07:00-19:00 neu 06:00-20:00 | 24/7 |
| Goleddfu'r safle ym mhyrth adeiladu 6, 7, 8 a 9 a chludo'r deunydd canlyniadol ar ffyrdd cludo HR-011, HR-b1 a HR-B2 ar gyfer adeiladu Twmpath E a Thwmpath B. Byddai mwyafrif y gwaith hwn yn digwydd yn ystod misoedd 1-12 y cyfnod adeiladu. | Yr holl offer 07:00-19:00 | Yr holl offer 07:00-22:00 |

I ddarparu ar gyfer y newid (a lliniaru effeithiau), byddai angen y llwybrau cludo ychwanegol canlynol o fewn terfynau'r gorchymyn:

- dau lwybr cludo cylchog (HR-B1 a HR-B2) wedi'u lleoli i'r gorllewin o Dregele ym mharth adeiladu 9, ac un llwybr cludo o barth adeiladu 9 i Dwmpath E (HR-011); byddai'r rhain yn cael eu defnyddio'n bennaf i gludo deunydd swmp sy'n codi yn sgil goleddfu'r safle yn ystod y flwyddyn adeiladu gyntaf i ddarparu deunydd llenwi sy'n angenrheidiol i adeiladu Twmpath B1 ac E;
- llwybr cludo o ben deheuol y gwaith cloddio dwfn (pyrth adeiladu 4 ac 8) i barth adeiladu 6 (HR-012), lle y bydd cyfarpar prosesu cerrig yn cael ei leoli, a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn y nos yn bennaf er mwyn osgoi symud offer ger derbynyddion sensitif;
- llwybr cludo o ben deheuol y gwaith cloddio dwfn (pyrth adeiladu 4 ac 8) i byrth adeiladu 2 a 10 (HR-013), ac o ben gogleddol y gwaith cloddio dwfn (pyrth adeiladu 4 ac 8) i byrth adeiladu 2A a 2 (HR-014); byddai'r rhain yn galluogi cludo cerrig sy'n codi yn sgil y gwaith cloddio i'r Gwaith Morol, a byddent yn cael eu defnyddio yn y nos yn bennaf.

I ddarparu ar gyfer y newid arfaethedig, gwnaed nifer o fân newidiadau i'r rhestr/atodlen offer ddangosol hefyd yn ymwneud â niferoedd offer a dilyniannu gweithgareddau.

Nid yw'r Ymgeisydd yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd na gwahanol o ganlyniad i'r newid arfaethedig.

Mae'r ffactorau sydd wedi arwain at y newid y gofynnwyd amdano wedi cael eu hesbonio.

ii) Safbwyntiau ar berthnasedd

Dadleuodd IACC y byddai'r newid, o'i ystyried ochr yn ochr â'r ddau gais arall am newid, yn cael effaith gronol ac yn arwain at newid perthnasol i'r cais ac y byddai angen asesiad llawn o'r effeithiau, gan gynnwys darparu gwybodaeth amgylcheddol arall.

O ran perthnasedd y newid arfaethedig, nid oedd CNC o'r farn y byddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol. At hynny, roedd CNC o'r farn na fyddai'n debygol o arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol ar Ansawdd Aer, Ecoleg Ddaearol a Dŵr Croyw, yr amgylchedd morol nac Ardal o Harddwch Naturiol (AHNE) Ynys Môn.

iii) Barn yr Awdurdod Archwilio ar berthnasedd a derbyn newidiadau

Er bod yr Awdurdod Archwilio yn nodi pryderon IACC ynglŷn â'r effeithiau cronol posibl, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, nid yw'r Awdurdod Archwilio o'r farn y byddai'r newid y gofynnwyd amdano'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol. Nid yw'r Awdurdod Archwilio ychwaith yn credu bod hyn (a'r newidiadau eraill a gynigiwyd) yn golygu nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr, yn ei hanfod, yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol. Yn unol â hynny, ystyrir y byddai'r newidiadau i batrymau sifft gweithwyr yn newid amherthnasol ac y dylai gael ei dderbyn i'w ystyried yn yr archwiliad.

iv) Materion i'w hystyried yn rhan o'r archwiliad

Er gwaethaf y cwestiwn ynghylch perthnasedd, mae IACC yn credu y byddai'r newid arfaethedig yn arwain at gynnydd sylweddol mewn gweithgareddau adeiladu dros

gyfnod o 24 awr a fyddai'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar dderbynyddion amgylcheddol a dynol, ac y byddai'r oriau gwaith arfaethedig yn gwrthdaro â'r amserau adeiladu a argymhellir o fewn Safonau Prydeinig fel BS6472-2:2008 (arweiniad i werthuso amlygiad dynol i ddirgryniad) a BS 5228-1:2009 (Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored). At hynny, mae IACC o'r farn y gallai'r agweddau hyn effeithio ar elfennau allweddol o'r prosiect, gan gynnwys llety gweithwyr a'r stoc dai, ac nad yw'r effeithiau hyn wedi cael eu hasesu'n briodol.

Ailadroddodd CNC ei anghytundeb ag asesiad Pennod D13 y Datganiad Amgylcheddol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol (SHRA) mewn perthynas ag Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn, a nododd y posibilrwydd o oleuadau ychwanegol. Mynegodd preswylwyr lleol bryder ynglŷn â sŵn, llwch a dirgryniad yn y nos a'r effaith y gallai hyn ei chael ar iechyd a diogelwch, gan gyfeirio'n benodol at aflonyddu ar gwsg.

Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio yn rhan o'i archwiliad o'r cais (fel y'i newidiwyd).

v) Ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhaliodd yr Ymgeisydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig rhwng 8/11/2018 a 6/12/2018. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau at ymgynghoreion penodol; cymhorthfa agored yng Nghemaes; anfon cylchlythyr Horizon 'diweddariad ar yr ymgynghoriad' at bob cartref yng Nghemaes, Tregele ac ar hyd rhan ddeheuol yr A5025 (3,018 o gyfeiriadau) a gosod hysbysiadau safle mewn 22 lleoliad.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn fodlon nad oes angen ymgynghoriad pellach, er mwyn tegwch, i ddiogelu buddiannau a/neu hysbysu'r rhai y gallai'r newid effeithio arnynt.

Gwybodaeth Ychwanegol

Er mwyn sicrhau bod yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cais bellach yn eglur (o ganlyniad i dderbyn y newidiadau amherthnasol hyn i'r cais yn yr archwiliad), ac i gynorthwyo'r Awdurdod Archwilio i archwilio'r cais fel y'i newidiwyd, mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu'r canlynol:

- i. yr holl ddogfennau cais diwygiedig, gan gynnwys cynlluniau i adlewyrchu'r Ceisiadau am Newid, erbyn Terfyn Amser 7 yr amserlen archwilio, sef 14 Mawrth 2019.

Yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes

Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer 0303 444 5000
Services: Wylfa@planninginspectorate.gov.uk
e-mail:

To Horizon Nuclear Power
(For information to all Interested
Parties)

Your Ref:

Our Ref: EN010007

Date: 25 February 2019

Dear Sir/Madam

**Planning Act 2008 (as amended) Section 89 and The Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) – Rule 9 and Rule 17**

**Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development
Consent for the Wylfa Newydd Project**

Changes to the original application and request for further information

We are writing to inform you of the procedural decision made by the Examining Authority (ExA) regarding the Applicant's request to accept a number of changes to the Development Consent Order (DCO) Application. We also write to you to request further information relating to the changed application.

The ExA has received two sets of change requests for the Application; the first request comprising two individual change requests and the second containing three individual change requests.

The first set of change requests was published as an Additional Submission along with a covering letter. The second set of Change Requests was published as part of the Deadline 4 documents also with an accompanying letter (REP4-001).

